

Darparu triniaethau cwyr personol agos

Trosolwg

Mae'r safon yma yn cydfodoli â, **SKAHDBRBNS1 Gweithredu a chynnal arferion gwaith diogel, glanwaith ac effeithiol *a *SKAHDBRBNS1 Ymgynghori, asesu, cynllunio a pharatoi ar gyfer gwasanaethau Gwallt, Barbro, Harddwch, Ewinedd, Lles a Holistig.** **Mae'r safon yma ar gyfer rhywun proffesiynol ym maes Harddwch sy'n darparu triniaethau cwyr personol agos. Bydd gofyn i chi hefyd wneud gwerthusiad ar ôl y driniaeth ac adfyfrio er mwyn gwelliant parhaus. Bydd rhaid i ddefnyddwyr y safon yma wneud yn siŵr bod eu harferion yn adlewyrchu'r wybodaeth, polisïau a gweithdrefnau diweddaraf a chyfarwyddyd am arfer orau. Cyngorir defnyddwyr y safon yma i fod yn ymwybodol o, a chydymffurfio gyda gofynion cymorth cyntaf yn unol â deddfwriaeth a pholisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol.

Y prif ddeilliannau yw:

1. Cael gwared o flew nad oes mo'u heisiau o fan personol agos

Darparu triniaethau cwyro personol agos

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cynnal ymgynghoriad cryno a chynhwysfawr gyda'r unigolyn
2. cadw at eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth, rheoliadau, gorchmynion a chanllawiau
3. trafod a sefydlu amcanion yr unigolyn, ei bryderon, ei ddisgwyliadau a'r canlyniadau y mae'n eu dymuno er mwyn hysbysu'r cynllun triniaeth cwyro, i gynnwys:

3.1 hanes triniaethau

3.2 dewisiadau triniaeth amgen

4. cynnal profion a chofnodi'r canlyniad er mwyn penderfynu addasrwydd ar gyfer y driniaeth yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
5. cadarnhau a chytuno gyda'r unigolyn, ei fod wedi deall y driniaeth cwyro arfaethedig, i gynnwys:

5.1 canlyniadau disgwyledig

5.2 gwrth-weithredoedd

5.3 adweithiau niweidiol

5.4 teimlad corfforol

6. sicrhau a chofnodi cydsyniad gwybodus yr unigolyn ar gyfer y driniaeth cwyro personol agos, yn unol â gofynion cyfundrefnol ac yswiriant

7. paratoi'r unigolyn a **man triniaeth yr unigolyn** yn unol â'r **protocol triniaeth cwyro personol agos** i gynnwys:

- 7.1 cyfrifoldeb yr unigolyn i sicrhau bod man triniaeth yr unigolyn wedi ei saniteiddio cyn y driniaeth cwyro personol agos

8. gwneud dadansoddiad o'r blew a'r croen, i gynnwys:

8.1 dosbarthiad y blew

8.2 patrymau tŵf y blew

8.3 dosbarthiad y croen

8.4 cyflwr y croen

Darparu triniaethau cwyr personol agos

9. dewis y cwyr yn unol â'r protocol triniaeth cwyr personol agos, i gynnwys:
 - 9.1 tymheredd yn cael ei bennu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
10. dewis a defnyddio cynnyrch paratoi glendid a chyn-gwyr i gwrdd ag anghenion yr unigolyn yn unol â'r protocol triniaeth cwyr personol agos
11. cael gwared o'r blew mewn modd diogel ac effeithiol gan ddefnyddio systemau cwyr caled, i gynnwys:
 - 11.1 cynnal prawf clytiau gwresol yn syth cyn y driniaeth cwyr ar arddwrn y therapydd a man triniaeth yr unigolyn
 - 11.2 sefydlu patrwm tŵf y blew a thrimio'r blew hir cyn dodî'r cwyr
 - 11.3 trosglwyddo'r cwyr o'r uned gwyr yn unol â gofynion deddfwriaethol er mwyn cadw'r risg o groes-heintio a halogiad mor isel â phosibl
 - 11.4 dodî'r cwyr ar yr ongl briodol, yn uniongyrchol i dŵf y blew yn unol â'r protocol triniaeth cwyr personol agos
 - 11.5 cael gwared o'r cwyr yn sydyn yn unol â'r protocol triniaeth cwyr personol agos
 - 11.6 sicrhau bod man triniaeth yr unigolyn yn cael ei adael heb gwyr a blew yn unol â'r protocol triniaeth cwyr personol agos
 - 11.7 dodî cynnyrch lleddfu ar fan triniaeth yr unigolyn yn unol â'r protocol triniaeth cwyr personol agos
 - 11.8 sicrhau cyn lleied o wastraff â phosibl er mwyn cynaliadwyedd
12. monitro iechyd, lles ac adwaith croen yr unigolyn drwy gydol y driniaeth cwyr personol agos
13. gweithredu yn y modd cywir os bydd adwaith niweidiol
14. cwblhau'r driniaeth yn unol â'r protocol triniaeth cwyr personol agos, gofynion deddfwriaethol a pholisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol
15. cwblhau cofnodion triniaeth yr unigolyn a'u cadw'n unol â deddfwriaeth data
16. defnyddio ymarfer adfyfyrïol er mwyn gwerthuso'r driniaeth cwyr a gweithredu'n

Darparu triniaethau cwyro personol agos

briodol

17. rhoi **cyfarwyddiadau** a chyngor i'r unigolyn cyn ac ar ôl y driniaeth cwyro personol agos
18. cofnodi canlyniad y driniaeth cwyro personol agos a gwerthusiad ohoni

Darparu triniaethau cwyr personol agos

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. eich swyddogaeth a'ch cyfrifoldebau pan yn darparu triniaethau i'r wyneb a phwysigrwydd gweithio o fewn eich gallu

2. pam bod rhaid i chi gydymffurfio ag arfer moesegol a gweithio o fewn gofynion deddfwriaethol, i gynnwys:

2.1 y cyfrifoldebau o dan reoliadau trwyddedu'r awdurdod lleol i chi eich hun a'ch adeilad

3. pwysigrwydd ymwneud â, a chofnodi datblygiad proffesiynol parhaus i gynnwys, polisiau, gwybodaeth, gweithdrefnau a chyfarwyddyd am yr arfer orau ddiweddaraf

4. yr **anatomeg a'r ffisioleg** sy'n berthnasol i'r safon yma:

4.1 **strwythur anatomegol y genitalia benywaidd a'r genitalia gwrywaidd**

5. y gwrtharwyddion cymharol a llwyr sy'n berthnasol i driniaethau harddwch, i gynnwys:

5.1 y gofynion deddfwriaethol ac yswiriant ar gyfer cael diagnosis a chyfeirio meddygol

6. pwysigrwydd nodi nodweddion amheus afreolaidd ac anafiadau ar y croen, a chyfeirio at rywun proffesiynol perthnasol ym maes gofal iechyd

7. diben, triniaethau cwyr, y defnydd ohonynt a'u cyfyngiadau mewn perthynas â'r canlynol:

7.1 hanes meddygol o'r gorffennol a chyfredol

7.2 ffactorau perthnasol yn ymwneud â'r ffordd o fyw

7.3 meddyginiaeth a chyflyrau meddygol

7.4 disgwyliadau'r unigolyn

7.5 hanes triniaethau

Darparu triniaethau cwyr personol agos

8. y rhesymau dros dorri blew crwydr a rhai sy'n rhy hir, cyn cychwyn y driniaeth cwyr personol agos
9. y strwythur anatomegol a'r nodweddion er mwyn penderfynu ar gymesuredd a chydbwysedd o driniaethau cwyr personol agos
10. yr adweithiau niweidiol sy'n gysylltiedig gyda thriniaeth cwyr personol agos a sut i ymateb iddynt
11. pam bod rhaid i'r therapydd gefnogi'r croen i fod yn dynn drwy gydol y driniaeth cwyr personol agos gyda chymorth yr unigolyn
12. sut mae safle'r therapydd a'r unigolyn yn effeithio ar ganlyniadau'r driniaeth
13. y cyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth cyn, yn ystod ac ar ôl y driniaeth cwyr personol agos, i gynnwys:
 - 13.1 pwysigrwydd rhoi polisi diogelu ar waith i warchod yr unigolyn a'r therapydd
 - 13.2 cael gwared o wastraff cwyr halogedig mewn modd effeithiol ac yn unol â gofynion deddfwriaethol
14. pam ei bod hi'n bwysig trafod ac adnabod amcanion, pryderon disgwyliadau yr unigolyn a'r canlyniadau y mae'n eu dymuno a chytuno ar y cynllun triniaeth cwyr personol agos
15. y gofynion cyfreithiol ar gyfer darparu triniaethau harddwch i blant dan oed ac oedolion bregus
16. y strwythurau talu a dewisiadau ar gyfer triniaeth
17. y gofynion deddfwriaethol a digollediad er mwyn sicrhau cydsyniad gwybodus wedi'i lofnodi ar gyfer y driniaeth
18. pwysigrwydd cadw at y protocol triniaeth cwyr personol agos
19. pwysigrwydd gwneud dadansoddiad o'r blew a'r croen
20. sut i gadw'r unigolyn yn gyfforddus a chadw ei urddas drwy gydol y driniaeth
21. y mathau o gynnyrch glendid ar gyfer y croen a phwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
22. y mathau o gynnyrch cwyr caled a systemau cwyr a pha

Darparu triniaethau cwyr personol agos

wahaniaethau sydd rhyngddynt, i gynnwys:

22.1 cynwysyddion

22.2 tymereddau gweithio

22.3 technegau ar gyfer dod i a thynnu i ffwrdd

22.4 man triniaeth yr unigolyn

23. y mathau o a'r defnydd o dempledi siapiau a ddefnyddir mewn triniaethau cwyr personol agos

24. y mathau o driniaethau cwyr personol agos sydd ar gael

25. manteision a chyfyngiadau cynnyrch a chyfarpar a ddefnyddir mewn triniaethau cwyr personol agos, i gynnwys:

25.1 sut mae dosbarthiad y blew a'r croen a goddefiad poen yr unigolyn yn gallu effeithio ar y dewis o gynnyrch a chyfarpar a ddefnyddir mewn triniaeth cwyr personol agos

26. pwysigrwydd cadw at gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr er mwyn atal anghydnawsedd cynnyrch a risgiau i iechyd

27. achosion cynhenid, systemaidd ac argroenol tŵf di-eisiau o'r blew

28. yr addasiadau sydd eu hangen pan yn cael gwared o flew dan amodau sy'n rhwystro triniaeth

29. sut i baratoi a defnyddio cynnyrch a chyfarpar yn unol â'r protocol triniaeth cwyr personol agos

30. y polisiâu a'r gweithdrefnau cyfundrefnol ar gyfer torri'r côd ymddygiad ac ymarfer gan yr unigolyn

31. yr addasiadau sydd eu hangen pan yn cael gwared o flew dan amodau sy'n rhwystro triniaeth

32. sut i baratoi a defnyddio cynnyrch a chyfarpar yn unol â'r protocol triniaeth cwyr personol agos

33. pwysigrwydd monitro iechyd a lles yr unigolyn, yn ystod ac ar ôl y driniaeth

Darparu triniaethau cwyr personol agos

34. y gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol ar gyfer cwblhau a chadw cofnodion yr unigolyn am y driniaeth cwyr personol agos
35. canlyniadau disgwylidig triniaethau cwyr personol agos
36. diben ymarfer adfyfyriol a gwerthuso a sut y mae'n darparu gwybodaeth ar gyfer triniaethau yn y dyfodol
37. pwysigrwydd cofnodi canlyniad a gwerthusiad y driniaeth cwyr personol agos
38. cyfarwyddiadau a'r cyngor, cyn ac ar ôl y driniaeth cwyr personol agos

Cwmpas/Ystod

Hanes triniaethau

1. plicio
2. eillio
3. hufenau diflewol
4. diflewiad trydanol
5. menyg sgraffellog
6. golau gwyntylledig dwys
7. cael gwared o flew drwy laser
8. diflewiad trydanol
9. trimio

Adweithiau niweidiol

1. cleisio
- chwydd gwyn gormodol
- llosgiadau
- crafiadau
- blew toredig
6. y ddanadfrech
- gwaedu
- ad-dyfiant gormodol ac wedi ei leihau
- crafiadau / sgriffiadau o'r croen
10. alergedd

Protocol triniaeth cwyro personol agos

1. amgylchedd waith
- iechyd a diogelwch
- atal a rheoli haint
- cynllun triniaeth

Darparu triniaethau cwyr personol agos

- cydsyniad gwybodus
- 6. rheoli data
- 7. canlyniadau profion
- 8. cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
- archwilio ac atebolrwydd
- 10. cynaliadwyedd
- 11. rheoli gwastraff
- 12. ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth
- 13. ymarfer adfyfyriol

Dosbarthiad o'r blew

1. syth
2. cyrliog
3. cyrliog iawn

*
*

Cyfarwyddiadau

1. hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol yr unigolyn a'r ymarferydd
2. cyfarwyddiadau a gofal cyn ac ar ôl y driniaeth
3. cyfyngiadau a risgiau cysylltiedig
4. triniaethau yn y dyfodol

Anatomeg a ffisioleg

- * *1. strwythur a swyddogaeth systemau'r corff a'u cyd-ddibyniaeth a rei gilydd
- 2. strwythur a swyddogaeth y blew a chylch tŵf y blew
- 3. strwythur anatomegol y genitalia
- 4. y gwrtharwyddion cymharol a llwyr a phatholegau cysylltiedig

Strwythur y genitalia benywaidd

Darparu triniaethau cwyr personol agos

1. mons pwbis
2. y gweflau gan gynnwys a gweflau mwyaf a'r gweflau lleiaf
3. agoriad wrethrol allanol
4. yr agoriad gweiniol
5. y rhefr
6. y perinöwm
7. cfwl clitoraidd

*

*

*

*

*

*

*

*

*

*

*

*

*

*

Strwythur y genitalia gwrywaidd

1. blaengroen
2. pidyn
3. pen y pidyn
4. chwarennau hadlfol
5. chwarennau ategol
6. chwaren y prostad
7. ceillgwd
8. vas deferens
9. ceilliau
10. ceillgwd
11. argeilliau
12. mons pwbis

13. man rhefrol

Geirfa

Gwrtharwydd llwyr

Mae gwrtharwydd llwyr yn gyflwr sy'n rhwystro'r gwasanaeth rhag cael ei gyflawni ac a all fod angen cael ei gyfeirio.

Adwaith niweidiol

Adwaith niweidiol yw adwaith 'annisgwyl' neu ganlyniad yn dilyn gwasanaeth e.e. llewygu

Anatomeg a ffisioleg

Y ffordd mae'r systemau sgerbydol, cyhyrol, cylchredol, lymffatig, resbiradol, ysgarthol, treuliol, endocrinaidd a nerfol yn rhyngweithio gyda'i gilydd a sut mae nhw'n effeithio ar yr unigolyn, y gwasanaeth a'r canlyniadau

Gwrth Weithred

Gwrth weithred yw adwaith 'ddisgwylledig endocrinaidd neu ganlyniad yn dilyn gwasanaeth e.e. erythema

Ymarfer wedi ei seilio ar dystiolaeth

Mae ymarfer wedi ei seilio ar dystiolaeth yn seiliedig ar y dystiolaeth orau gyfredol, ddilys a pherthnasol sydd ar gael

Cymorth Cyntaf

Gall cymorth cyntaf gyfeirio at gymwysterau cymorth cyntaf yn y gwaith neu ei gyffelyb neu ymwybyddiaeth o gymorth cyntaf iechyd meddyliol.

Dosbarthiad o'r blew classification

Gellir cyfeirio at bbarthiad 'r blew fel y math o flew.

Cwyr poeth caled

Mae cwyr poeth caled yn gwyr aml-gyfeiriol y gellir ei ddodi i'r blew, ei adael hyd nes ei fod bron â chaledu a'i dynnu i fwrdd. Gall cwyr poeth caled gael amryw o briodolddau.

Protocol

Protocol yw gweithdrefn safonol er mwyn sicrhau arfer orau a chydymffurfiad pan yn darparu gwasanaethau e.e. dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr

Gwrthawrydd cymharol

Gwrtharwydd cymharol yw cyflwr sy'n gofyn am asesiad o addasrwydd ar gyfer y gwasanaeth a/neu os oes angen addasiadau

Diogelu

Dyma'r camau 'rydym yn eu cymryd i hyrwyddo lles oedolion bregus i'w gwarchod rhag niwed.

Cysylltiadau â SGC eraill

SKAHDBRBNST1, SKAHDBRBNS1, SKABBR1, SKABBR2, SKABN1, SKABN2, SKABN3, SKAB1, SKAB2, SKAB3, SKAB4, SKAB5, SKAB7, SKAB8, SKAB9, SKAB10, SKAB11, SKAB12, SKABS1, SKABS2, SKABS3, SKABS4, SKABS5, SKABS6, SKABS7, SKAHDBMN1, SKAHDBRBNS2, SKAHDBRBNS3, SKAHDBRBNST2, SKAHDBRBNST3, SKAHDBRBNT1

Darparu triniaethau cwyr personol agos

Datblygwyd gan	SkillsActive
----------------	--------------

Dyddiad cymeradwyo	30 Maw 2021
--------------------	-------------

Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Maw 2024
--------------------------	-------------

Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
------------	---------------

Statws	Gwreiddiol
--------	------------

Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
----------------------	--------------

RCU gwreiddiol	SKABT23 and SKABT22
----------------	---------------------

Galwedigaethau perthnasol	Therapydd Harddwch
---------------------------	--------------------

Cyfres/Set	Therapi Harddwch
------------	------------------

Geiriau Allweddol	cwyr personol agos
-------------------	--------------------